CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Rheoliadau Byrddau Lleol Diogelu Plant (Cymru)

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 11 Mai 2006. Fe'u hystyriwyd yn unol â'r protocol ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth y cytunodd y Pwyllgor arno ar 11 Mehefin 2003, sef bod yr Aelodau yn rhoi gwybod ymlaen llaw am unrhyw ymholiadau ynghylch y Gorchymyn neu ddiwygiadau y maent am eu gwneud iddo.

Ni chynigiodd yr Aelodau unrhyw welliannau.

Ymatebodd y Gweinidog i dri phwynt o eglurhad a godwyd gan Jenny Randerson AC.

i. Paragraff 3 y Memorandwm Esboniadol – Sut y bwriedir sicrhau bod Byrddau Lleol Diogelu Plant bob amser yn cael gwybod yn llawn am achosion lle y caiff plentyn niwed nad yw'n peryglu ei fywyd neu nad yw'n effeithio'n barhaol ar ei iechyd neu'i ddatblygiad?

Ymateb: Byddai'r asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant yn cael canllawiau a meini prawf er mwyn penderfynu pryd i gyfeirio achosion at y Byrddau. Byddai ymchwiliadau ac erlyniadau'r heddlu yn cael blaenoriaeth dros adolygiadau'r Byrddau Lleol Diogelu Plant.

ii. Mae paragraffau 7 ac 8 y Memorandwm Esboniadol yn amlinellu'r goblygiadau ariannol. A yw'r Gweinidog yn hyderus y gall y Byrddau Lleol Diogelu Plant ysgwyddo'u cyfrifoldebau eang o fewn yr adnoddau a amlinellwyd ar eu cyfer? Sut y bydd dosbarthiad y cyllid y cyfeirir ato ym mharagraff 8 yn cymryd i ystyriaeth wahanol lwyth gwaith y 22 Bwrdd?

Ymateb: Câi'r cyllid ei ddosbarthu drwy grant cynnal refeniw ar sail yr asesiad o wariant safonol. Ar hyn o bryd, mae peth o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau plant yn cael ei ddosbarthu drwy grant penodol, ond câi hwn ei gynnwys yn y grant cynnal refeniw.

iii. O ran yr Offeryn Statudol ei hun, mae 4.4b yn cyfeirio at baratoi adroddiad ysgrifenedig ym mhob achos. I ba raddau y mae gorfodaeth ar y sefydliadau o dan sylw i roi canfyddiadau adroddiad o'r fath ar waith?

Ymateb: Un o ddyletswyddau'r Bwrdd fyddai monitro'r camau a gymerir yng ngoleuni canfyddiadau adroddiad. Byddai'r systemau rheoli perfformiad

mewnol yn canfod unrhyw fethiannau a byddai swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn monitro'r gwaith.

Wrth ateb cwestiwn pellach gan Helen Mary Jones, dywedodd y swyddogion na fyddai rheoliad 5 ond yn caniatáu i swyddog sy'n uniongyrchol atebol i'r cyfarwyddwr/swyddog arweiniol ddirprwyo ar ran y cyfarwyddwr/swyddog arweiniol.

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd